Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Diwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG

Beth mae contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd y GIG yn ei olygu i gleifion yng Nghymru

**Gorffennaf 2026**



Rhagor o wybodaeth:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl.

Mae’r Senedd fel y’i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o’r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o’r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NS**

Tel: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Diwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG

## Beth mae contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd y GIG yn ei olygu i gleifion yng Nghymru

**Gorffennaf 2026**

**Awdur:**
Rebekah James

Cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru **Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026** a ddaeth â chontract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG diwygiedig i rym o 1 Ebrill 2026.

Mae'r briff hwn yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl o ganlyniad i'r contract newydd.

**Rhagor o wybodaeth:**
ymchwil.senedd.cymru



# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 7**

**2. Contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd y GIG i Gymru ........ 8**

Mynediad at wasanaethau deintyddol ........ 8

Gwasanaethau gorfodol ........ 8

Gwybodaeth i gleifion ........ 9

Ffioedd deintyddol y GIG yng Nghymru ........ 10

Pecyn gofal brys ........ 10

Asesiad claf newydd ........ 11

Apwyntiadau ailalw ........ 11

Pecyn gofal adferol syml ........ 11

Pecyn gofal adferol helaeth ........ 11

Pecyn gofal periodontol ........ 12

Pecyn gofal dannedd gosod ........ 12

Pecyn gofal sefydlogi ........ 12

Pecyn gofal sianel y gwreiddyn blaen ........ 12

Pecyn gofal sianel y gwreiddyn cefn ........ 12

Pecyn gofal coron, pont, mewnosodiad, arosodiad ac argaen ........ 13

Pecyn gofal amrywiol ........ 13

# 1. Cyflwyniad

Cafodd **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026** (y Rheoliadau) eu cyflwyno gan Lywodraeth flaenorol Cymru, a'u nod yw gwella gofal cleifion drwy **"wella mynediad, gwasanaethau atal, ansawdd, a'r gwaith o fonitro contractau**".

Mae Contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd y GIG yn **pwysleisio gwasanaethau atal, hunanofal** a gofal sy'n seiliedig ar **angen clinigol a risg** y claf. Ei nod yw **blaenoriaethu pobl sydd ag anghenion clinigol uwch**. Mae hefyd yn cyflwyno model codi tâl a thrin newydd, gan ddisodli'r system tri band blaenorol gyda **model 'pecyn gofal'**.

Mae'r briff hwn yn nodi'r hyn y mae'r Rheoliadau'n ei gyflwyno ar gyfer cleifion deintyddol y GIG yng Nghymru.

# 2. Contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd y GIG i Gymru

## Mynediad at wasanaethau deintyddol

Mae'r **Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau** yn datgan bod y cytundeb newydd yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â chael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG:

- **Rhaid i gleifion newydd y mae angen gofal brys arnynt** gael apwyntiad **o fewn 72 awr** drwy raglen gofal brys neu drefniant rota y bwrdd iechyd lleol.
- Mae **Porth Mynediad Deintyddol** ar gael, sef system ganolog ar gyfer dyrannu apwyntiadau deintyddol ar-lein a weinyddir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Drwy'r porth, **gall cleifion newydd gofrestru ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG** a chael eu dyrannu i feddygfeydd ar gyfer asesiadau cleifion newydd.
- Ystyrir cleifion sydd wedi derbyn cwrs o driniaeth o fewn y 36 mis blaenorol (gan gynnwys apwyntiadau ailalw) yn **'gleifion gweithredol'** ac maent yn aros gyda'u practis deintyddol i gael gofal parhaus. Mae apwyntiad ailalw yn derm am 'archwiliad'.
- Gall cleifion sy'n methu â mynychu apwyntiadau neu sydd heb fynychu ers 36 mis gael eu **dadrestru** (heb ei ystyried yn glaf gweithredol mwyach) a'i **ddychwelyd i'r Porth Mynediad Deintyddol**, gan ryddhau capasiti i gleifion eraill sydd angen gofal.

## Gwasanaethau gorfodol

Gelwir ymarferwyr deintyddol sydd â chontract gyda'r bwrdd iechyd lleol yn 'gontractwyr deintyddol'. Mae gan **gontractwyr deintyddol** gontract blynyddol gyda'u bwrdd iechyd lleol ac mae'r cyllid a dderbynnir yn seiliedig ar werth contract blynyddol. Mae'r **Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau** yn nodi, fel rhan o'r contract blynyddol, ei bod yn ofynnol i gontractwyr deintyddol ddarparu **gwasanaethau gorfodol** sydd wedi'u rhannu'n ôl y categorïau a nodir yn y tabl a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Mynediad brys i gleifion newydd**<br>(7% o werth y contract) | Darparu gofal brys o fewn 72 awr drwy raglen bwrdd iechyd lleol neu drefniant rota. |
| **Apwyntiadau ailalw**<br>(3% o werth y contract) | Ar gyfer cleifion sydd angen apwyntiadau ailalw rhwng 18 a 24 mis ers yr apwyntiad diweddaraf, yn seiliedig ar asesiad risg yn unol â chanllawiau NICE. |
| **Asesiad claf newydd**<br>(10% o werth y contract) | Wedi'i ddyrannu drwy'r Porth Mynediad Deintyddol. |
| **Pecynnau gofal**<br>(70% o werth y contract) | Darparu triniaeth yn seiliedig ar anghenion drwy fwndeli diffiniedig o wasanaethau deintyddol yn seiliedig ar angen clinigol a risg a aseswyd. |
| **Gwasanaethau atal**<br>(5% o werth y contract) | Ymgorfforì gofal ataliol a chymorth hunanofal. |
| **Blaenoriaethau cenedlaethol**<br>(5% o werth y contract) | Mynd i'r afael â blaenoriaethau a osodwyd gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddydau. |
| Gofal brys i gleifion gweithredol | Caiff ei ddarparu yn ogystal â'r cyfrannau uchod yn ôl yr angen. |

## Gwybodaeth i gleifion

**Mae'n ofynnol i gontractwyr deintyddol** ddarparu gwybodaeth i gleifion a chydymffurfio â **dyletswyddau'r Gymraeg**. **Rhaid i gontractwyr arddangos** yn amlwg ar safle'r practis ac ar eu gwefan (os oes ganddynt un) wybodaeth, gan gynnwys ffioedd y GIG; ei ymrwymiad i sicrhau ansawdd; y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am bryderon; a sut i gael mynediad at bolisi preifatrwydd y practis.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau** yn nodi bod disgwyl i gontractwyr deintyddol hefyd gael **taflen wybodaeth i gleifion** sydd ar gael ac sy'n cynnwys manylion am y practis, ymarferwyr, gwasanaethau sydd ar gael, oriau'r feddygfa, sut i gael mynediad at ofal brys, manylion cyswllt GIG 111 Cymru,

cyfeiriad gwe y Porth Mynediad Deintyddol, hawliau a chyfrifoldebau cleifion, a'r trefniadau ar gyfer dadrestru.

Pan fydd claf wedi cael ei asesu a bod angen pecyn gofal dros fwy nag un apwyntiad, rhaid i'r contractwr roi **cynllun triniaeth** i'r claf. Mae'r **Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau** yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y dylai'r cynllun triniaeth ei gynnwys.

## Ffioedd deintyddol y GIG yng Nghymru

Mae'r Rheoliadau'n newid y ffordd y cyfrifir ffioedd cleifion, gan symud i ffwrdd o'r tri band ar wahân blaenorol, i fodel yn seiliedig ar becynnau gofal.

**Mae'r swm y mae claf yn ei dalu** ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG yn dibynnu ar y math o ofal a ddarperir. Fel arfer, bydd claf yn talu **un tâl fesul cwrs o driniaeth** neu becyn gofal, hyd yn oed os yw'r driniaeth yn digwydd dros fwy nag un apwyntiad.

Mae **cyfanswm tâl uchaf o £384 am gwrs o driniaeth** (neu sawl cwrs a gyflwynir ar yr un pryd).

Gall rhai triniaethau hefyd gynnwys **ffioedd labordy ar wahân** **sy'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y claf**, er enghraifft ar gyfer coronau, pontydd neu ddannedd gosod. Yn flaenorol, roedd costau gofal clinigol a ffioedd labordy yn cael eu cyfuno, ond mae hyn bellach wedi'i rannu'n ddau daliad ar wahân. Bwriad y newid yw gwneud costau'n fwy tryloyw a rhagweladwy.

Caiff manylion am **ba gleifion sydd wedi'u heithrio rhag ffioedd deintyddol y GIG** eu darparu ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dylai ymarferwyr deintyddol arddangos poster am ffioedd y GIG yn eu hystafell aros, ac anogir cleifion i ofyn faint y bydd cost eu cynllun triniaeth unigol.

Mae **gwefan Llywodraeth Cymru** yn darparu'r wybodaeth a ganlyn am y **ffioedd cleifion** sydd ar waith ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG:

### Pecyn gofal brys

- **£37.50**
- Mae gofal deintyddol brys yn cynnwys asesiad a thriniaeth iechyd y geg i leddfu poen neu atal y broblem bresennol rhag gwaethygu'n sylweddol.

- Lle bo'n briodol, dylai gofal brys ddarparu ateb hirdymor a gall gynnwys triniaeth barhaol, fel adferiadau, gyda chydsyniad y claf. Gellir atgyfeirio claf os oes angen gofal pellach.

## Asesiad claf newydd

- **£27.21**
- Mae asesiad claf newydd yn cynnwys asesiad iechyd clinigol a chyffredinol llawn, gan gynnwys archwiliad meinwe meddal a phelydrau-X lle bo'n briodol. Mae hefyd yn cynnwys gofal ataliol – darperir rhagor o fanylion ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

## Apwyntiadau ailalw

- **£25.00 fesul ymweliad**
- Rhaid i archwiliadau ailalw ddilyn **Canllawiau NICE** a bod yn seiliedig ar lefel risg unigol y claf. Rhaid i ddeintyddion gofnodi cyfnod ailalw claf a monitro ei iechyd geneuol i sicrhau ei fod yn aros ar y llwybr ailalw mwyaf priodol.

## Pecyn gofal adferol syml

- **£36.03**

  Yn cynnwys llenwadau, coronau dros dro, coronau Hall a thynnu dannedd ar gyfer hyd at gyfanswm o 4 dant.

## Pecyn gofal adferol helaeth

- **£68.75**
- Yn cynnwys yr un triniaethau â'r pecyn adferol syml ar gyfer rhwng 5 ac 8 dant.

## Pecyn gofal periodontol

- **£48.53**
- Ar gyfer cleifion sydd â chlefyd y deintgig sy'n gallu cael triniaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd hylendid y geg wedi'i deilwra, a chael gwared ar blac.

## Pecyn gofal dannedd gosod

- **£86.40**
- Yn cynnwys dannedd gosod uchaf ac isaf.
- Nid yw ffioedd labordy wedi'u cynnwys a rhaid eu talu ar wahân oni bai bod cleifion wedi'u heithrio rhag ffioedd deintyddol y GIG.

## Pecyn gofal sefydlogi

- **£75.00**
- Ar gyfer cleifion sydd â phydredd dannedd helaeth (7 neu fwy o ddannedd yr effeithir arnynt).
- Yn cynnwys tynnu dannedd, gofal ataliol, adferiadau, a chefnogaeth ar gyfer clefyd y deintgig.

## Pecyn gofal sianel y gwreiddyn blaen

- **£91.18**
- Triniaeth sianel y gwreiddyn ar gyfer hyd at ddau ddant blaen (dannedd 1 i 3).

## Pecyn gofal sianel y gwreiddyn cefn

- **£182.72**
- Triniaeth sianel y gwreiddyn ar gyfer hyd at ddau ddant blaen neu ddant cefn.
- Nid yw ffioedd labordy wedi'u cynnwys a rhaid eu talu ar wahân oni bai bod cleifion wedi'u heithrio.

### Pecyn gofal coron, pont, mewnosodiad, arosodiad ac argaen

- **£140.44**
- Yn cynnwys: hyd at ddwy goron; hyd at bont tair uned; un goron a phont cantilifer sengl wedi'u darparu gyda'i gilydd.
- Nid yw adferiadau dros dro a ffioedd labordy wedi'u cynnwys a rhaid eu talu ar wahân oni bai bod cleifion wedi'u heithrio.

### Pecyn gofal amrywiol

- **£25.00**
- Ar gyfer triniaethau sydd y tu allan i becynnau gofal eraill neu y tu allan i'r **cyfnod gwarant**. Mae rhestr o'r hyn y gallai hyn ei gynnwys wedi'i nodi ar **wefan Llywodraeth Cymru**.
- Nid yw ffioedd labordy wedi'u cynnwys a rhaid eu talu ar wahân oni bai bod claf wedi'i eithrio.